NODIADAU CANLLAW

YMGEISIO I FOD YN SAFONWR ARTS AWARD

Diolch am eich diddordeb yng Ngholeg y Drindod Llundain. Mae eich cais yn darparu'r wybodaeth rydym yn ei ddefnyddio er mwyn ein helpu i benderfynu pa un ai i'ch gwahodd i gyfweliad neu ddigwyddiad asesu neu beidio. Lluniwyd y nodiadau hyn i'ch cynorthwyo i roi'r wybodaeth rydym ei hangen cyn gwneud unrhyw benderfyniadau dethol.

Gair am y Drindod

Mae Coleg y Drindod Llundain yn fwrdd arholi rhyngwladol blaenllaw sy'n cynnig cymwysterau achrededig mewn iaith Saesneg a'r celfyddydau perfformio a chreadigol o arholiadau a thystysgrifau graddedig i ddiplomâu a chymwysterau galwedigaethol lefel uwch.

Lluniwyd ein harholiadau a'n asesiadau i helpu cynnydd y myfyrwyr a'r gweithwyr dan hyfforddiant; i nodi cyflawniad ym mhob cam o'u datblygiad, ac at bob lefel o gymhwysedd, ar daith tuag at foddhad o'u doniau a'u galluoedd unigol eu hunain.

Mae'r Drindod yn cael ei gefnogi gan ei phaneli o arholwyr arbenigol ac arbenigwyr blaenllaw a staff academaidd a rhanddeiliaid eraill o fewn a thu allan i'r sefydliad. Gyda'i gilydd gyda'r pwyslais a roddir ar berthnasau hirsefydlog ac arddull agos atoch, mae'r rhinweddau hyn yn rhoi'r cyffyrddiad dynol i'r Drindod sydd wedi'i gynllunio er mwyn annog ac ysgogi dysgwyr ac athrawon i wireddu eu nodau personol a phroffesiynol.

Y Broses Ddethol

Derbyniai'r Drindod geisiadau ar gyfer holl baneli arholwr trwy gydol y flwyddyn. Caiff yr holl geisiadau eu hadolygu gan y Pennaeth Panel perthnasol a fydd yn ysgrifennu at bob ymgeisydd i'w hysbysu os gellir ystyried ei gais neu beidio a, os felly, beth yn union yw'r broses ddethol a phryd fydd yn cael ei gynnal.

Gwneud Cais

Mae'r broses ymgeisio ar gyfer safonwyr Arts Award ar-lein a gellir ei gyrraedd drwy www.artsaward.org.uk/jobs

Mae'n rhaid cwblhau pob adran ar y ffurflen gais, yn cynnwys yr adran "datganiad o ddiddordeb", lle'r ydych yn cael y cyfle i gynnwys unrhyw wybodaeth arall i ddangos pam eich bod yn addas i ddod yn arholwr neu safonwr y Drindod.

Ar y lleiaf dylai'r holl ymgeiswyr fod wedi cwblhau hyfforddiant cynghorwyr Efydd/Arian eisoes wrth wneud y cais.

Os oes gennych unrhyw gwestiwn ynglŷn â'r cais, cysylltwch ag Arweinydd Tîm Dilysiad Arts Award ar artsawardmoderation@trinitycollege.co.uk / 020 7820 6178

Cymorth i Ymgeiswyr Anabl

Rydym eisiau sicrhau fod gan bob ymgeisydd fynediad cyfartal at ein gweithdrefnau dethol. Os ydych yn anabl, gyda nam neu gyflwr iechyd hirdymor a allai effeithio ar eich gallu i gwblhau'r ffurflen hon, neu os ydych angen addasiadau er mwyn eich galluogi i fynychu cyfweliad/digwyddiad hyfforddi neu gymryd rhan yn y broses ddethol, dylech roi gwybod i ni ar yr amser pan fyddwch yn cyflwyno eich cais. Bydd hyn yn ein galluogi i wneud unrhyw addasiad rhesymol lle bo angen fel y medrwch gymryd rhan yn y broses ddethol.

Cynigion i ymuno â'r panel arholi

Mae'r cynigion i ymuno â phanel arholi'r Drindod yn amodol ar y canlynol:

Cymhwysedd i weithio yn y Deyrnas Unedig

Tystiolaeth fod gennych hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig drwy gyflwyno dogfennaeth wreiddiol.

Canolwyr

Lleiafswm o ddau ganolwr yn y gwaith sy'n foddhaol gan y Drindod a dylai gyfeirio at y 5 mlynedd ddiwethaf ar y lleiaf.

Swyddfa Cofnodion Troseddol

Cliriad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol drwy dderbyn datgeliad manylach. Disgwylir i'r ymgeiswyr a ddymunai ymaelodi â'r panel gwblhau cais CRB cyn y penodiad.

Cymwysterau

Tystiolaeth o gymwysterau priodol, tystysgrifau gwobrau ac aelodaeth broffesiynol.

Diogelu Data

Bydd y wybodaeth a ddarparwyd gennych ar y ffurflen gais a'r ffurflenni atodol yn cael eu defnyddio i gynorthwyo â'r broses ddethol yn unol â gweithdrefnau'r Drindod. Drwy gwblhau'r ffurflen gais ar-lein, deallir eich bod yn caniatáu i ni ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol ar gyfer y diben a nodwyd.

Cyfle Cyfartal

Mae Coleg y Drindod Llundain yn sefydliad Cyfle Cyfartal. Amcan ein polisi yw sicrhau na fydd unrhyw ymgeisydd neu weithiwr nac ymgynghorwr yn dioddef unrhyw wahaniaethau annheg ar sail ei hil, rhywedd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, oed, lliw, rhywioldeb, statws allbennu rhywedd, credoau crefyddol neu wleidyddol, statws priodasol a dosbarth cymdeithasol, cyfrifoldebau dros ddibynyddion, anabledd corfforol neu feddyliol, neu gefndir troseddol, neu dan anfantais drwy amodau neu ofynion neu arferion na ellir eu cyfiawnhau. Mae'r Drindod yn gwrthwynebu pob ffurf o ffafriaeth anghyfreithlon.

Ni fydd y wybodaeth Monitro Cyfle Cyfartal y byddwch yn ei ddarparu ar gael i'r Panel Dethol.